tafod elái

MEDI 2012

Rhif 270

Pris 80c

## Dathlu a Ffarwelio




**Llinos Swain, Menna Thomas, Alwena Roberts a Meinir Heulyn**

Nos Wener, Gorffennaf 6ed daeth nifer dda o aelodau a chyn-aelodau Côr Merched y Garth ynghyd yng Ngwesty Parc Treftadaeth y Rhondda i ddathlu a ffarwelio. Roedd yn braf cael croesawu ein sefydlydd, Meinir Heulyn a thair o'n cyn-arweinyddion, Alwena, Menna a Llinos yng hyd i gyd-swpera. Bu sgwrsio brwd, hel atgofion ac adrodd hanesion difyr o gwmpas y byrddau. Rhaid diolch i Penri Williams am baratoi cofnod o hanes y côr ar ffurf llyfryn a hefyd am ddangos uchafbwyntiau'r côr ar sgrin fawr. Dyna beth oedd hwyl yn gwylio'r aelodau mewn gwisgoedd o'r gorffennol a steil a lliw'r gwallt wedi newid yn syfrdanol! Gwerthfawrogwyd gwaith yr arweinyddion i gyd gan Eifiona, ein cadeirydd. Talwyd teyrnged arbennig i Llinos am arwain y côr am gyfnod o ddeng mlynedd ac am "sefyll yn y bwlch" am gyfnodau maith. Cyfansoddodd Glenys, ein prifardd cwpled
a gyflwynwyd ar ffurf sampler croesbwyth gan Loreen Williams:

"Yn Llinos a'i llawenydd
Alaw ddaeth oleua dydd"

Diolch i Eifiona, Eleri, Avril a'r pwyllgor am drefnu'r noson.

Rydyn ni wedi rhoi'r gorau i ganu ond byddwn yn cyfarfod yn achlysurol i hel atgofion. Swpera, siopa ac yn y blaen. Mae'r cyfarfod cyntaf ar nos Iau, Medi 20fed yn y Cinnamon Tree, Trefforest. Cysylltwch ag Eleri os ydych am ymuno â'r criw.

## Cofio Eileen Beasley



Bydd llawer yn yr ardal yn cofio am Eileen Beasley a fu farw ar ddiwedd wythnos yr Eisteddfod. Roedd safiad Trefor ac Eileen Beasley am wyth mlynedd yn Llangennech dros yr hawl i gael Bil Treth Cyngor Cymraeg yn gychwyn ar y frwydr i sicrhau statws i'r Iaith Gymraeg. Yn dilyn y brwydro symudodd y teulu i Donteg er mwyn i'r plant gael addysg Cymraeg. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

## Llywydd Merched y Wawr



**Gill Griffiths, yn y canol, gydag aelodau Cangen y Garth**

Roedd dydd Mercher yr Eisteddfod yn ddiwrnod o ddathlu i Gangen y Garth, Merched y Wawr, wrth i Gill Griffiths, un o'i haelodau, gael ei hurddo yn Llywydd Cenedlaethol y mudiad am y ddwy flynedd nesaf. Cynhaliwyd yr urddo ffurfiol ar lwyfan yr Eisteddfod ar ddiwedd cyflwyniad mewn cerdd a chân gan aelodau'r Rhanbarth - Ddoe a Heddiw: Bro Morgannwg.

Yna yn y Babell Lên cafwyd derbyniad anffurfiol i groesawu'r Llywydd newydd. I gloi'r derbyniad cyflwynwyd cerdd, a gyfansoddwyd yn arbennig gan y Prifardd Glenys Roberts, i Gill ar ran Cangen y Garth, a Rhanbarth y De-ddwyrain..

**I gyfarch Gill Griffiths ar ei hurddo'n Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr**

Ar lethrau'r Garth mae llwybr
ac arno un â'i golwg ar y copa draw,
cyffro yn ei chamau,
yn ei llygaid fflam y credu.
Ôl carnau, sandalau yn y llaid,
a Phen-y-garn yn denu fel bedwen haf,
swae ei sgert rubanau'n sgubo glannau Hafren,
yn galw'r pentrefi a'r cymunedau o'i chwmpas.
Anwesa hithau gylch ei thiriogaeth,
o Ben-tyrch a'r Fro is-law,
y Castell Coch a thir du Taf,
hyd Ben-y-fan a'r Cribyn
ac o gopa i gopa i bellafion dychymyg.

Cyflymwn ninnau'n camau ar ei hôl
ac awn i ben y mynydd gyda hi!

*GMR*

Prynwch eich copi o
***Tafod Elái***
**£8 am y flwyddyn**
Oddi wrth eich dosbarthwyr lleol neu
029 20890040

# tafod elái

***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***HYSBYSEBION***
***David Knight 029 20891353***

***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 5 Hydref 2012
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
26 Medi 2012

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafelai.net**

***Argraffwyr:***
**Gwasg**
**Morgannwg**
**Castell Nedd SA10 7DR**
**Ffôn: 01792 815152**



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

## Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




# Canlyniadau Eisteddfod Bro Morgannwg

Cyfansoddi drama fer ar y thema 'Teulu'. Buddugol: Dilwyn Jones, Maes y Gollen, Creigiau.

Blog neu ddyddiadur, Adran Dysgwyr. Buddugol: Joanne Davies, Heol Dowlais, Efail Isaf.

Côr Cymysg dros 45 mewn nifer
3ydd Côr Godre'r Garth

Cyflwyniad ar lafar, dawns a chân
1af Nantgarw

Côr Pensiynwyr dros 60 oed a dros 20 mewn nifer
1af Côr y Mochyn Du Caerdydd

Medal Syr T H Parry-Williams - er clod
Eirlys Britton, Caerdydd

Dawns Unigol i Fechgyn
1af Trystan Gruffydd
2il Gwynfor Dafydd
3ydd Osian Gruffydd

Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts (34)
Cydradd 1af. Menna Cazel Davies

Parti Dawns Werin dan 25 oed
3ydd Bro Taf

Côr Ieuenctid dan 25 oed a dros 20 mewn nifer. 1af Côr y Cwm

Côr Merched dros 20 mewn nifer
3ydd Côr Merched Ynysybwl

Dawns Stepio i Grŵp 1af Bro Taf

Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Stepio
2il Trystan, Osian a Gwynfor Dafydd

Parti Alaw Werin hyd at 20 mewn nifer
3ydd Parti'r Efail

Côr Llefaru dros 16 o leisiau
3ydd Côr y Mochyn Du

Grŵp Offerynnol Agored
1af Triawd Nantgarw


**Cydnabyddir Cefnogaeth**

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**


# CLWB Y DWRLYN

Noson Agoriadol
yng nghwmni'r cerddor bytholwyrdd

## Rhys Jones

(Y Cyfansoddwr, Arweinydd a Darlledwr o Glwyd )

**Nos Fawrth, Medi 25**
Clwb Rygbi Pentyrch
am 8.00 o'r gloch
(Croeso cynnes i bawb)
Manylion: 029 20890040

Dau i'ch dyddiadur:

**Cinio Nadolig Clwb y Dwrlyn**
Nos Fawrth, Rhagfyr 18yn
De'Courceys
(cynta i'r felin am y 70 sedd!)
*(Blaendal o £10 y pen i'w dalu ar noson agoriadol Clwb Y Dwrlyn)*

**Taith Y Dwrlyn i'r Gorllewin**
Llety yng Nghlwb Golff Trefdraeth
Mai 17 & 18
am £65 y pen y noson am swper, gwely a brecwast.
(Cyntaf i'r felin! )
*(Blaendal o £15 y pen i'w dalu ar noson agoriadol Clwb Y Dwrlyn)*

# CYLCH CADWGAN

Cyfres o nosweithiau difyr gyda llenorion o fri yn cynnwys Sharon Morgan, Ned Thomas, Y Prifardd Alan Llwyd, Y Prifardd Aled Gwyn.

Yn cychwyn ym mis Hydref

# MERCHED Y WAWR
**Cangen y Garth**

## Noson Agoriadol

8.00yh Nos Fercher
12 Medi

Am ragor o fanylion,
ffoniwch: 029 20890040

# Cyngerdd aduniad gwahanol - Slepjan!

Mae'n debyg mai'r Stone Roses yw'r diweddaraf mewn rhestr hir o grwpiau sy'n ail-ymddangos ar lwyfannau ond bydd cyngerdd pen-blwydd arbennig yn gweld dau o gymeriadau comedi mwyaf eiconig Cymru'n aduno am y tro cyntaf mewn dros chwarter canrif.

Bydd Syr Wynff ap Concord y Bos a Plwmsan y Twmffat Twp yn ymddangos ar y llwyfan fel rhan o Slepjan! ar 8 Medi yn Theatr Reardon Smith, Caerdydd i nodi pen blwydd cyntaf Stafell Fyw Caerdydd.

Yn ymuno â Syr Wynff a Plwmsan bydd rhai o dalentau cerddorol gorau Cymru - Bryn Fôn, Elin Fflur, Brigyn, Siân James a Delwyn Siôn. Bydd holl elw'r cyngerdd yn mynd tuag at gynnal y Stafell Fyw. Bydd y cyngerdd hefyd yn llwyfan i lansio Apêl Eciwmenaidd Stafell Fyw Caerdydd i holl eglwysi Cymru gan Archesgob Cymru'r Dr Barry Morgan ac arweinwyr enwadau eraill.

Dywedodd Wynford Ellis Owen (a.k.a Syr Wynff ap Concord y Bos), Prif Weithredwr Stafell Fyw Caerdydd, "Bydd y cyngerdd yn dipyn o noson! Y tro diwethaf i'm 'alter ego' a Plwmsan (Mici Plwm) fod gyda'i gilydd ar y llwyfan oedd yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl ym 1985. Yr unig beth rydw i'n ei gofio am y noson honno oedd sŵn hapus wrth i ni chwerthin ein hunain yn sâl am ddim rheswm o gwbl ac yna'r Pafiliwn i gyd yn gwneud yr un peth - a dyna ddiwedd y noson!

"Mae sbectol, het a chôt arbennig Syr Wynff ychydig yn dynnach nag oeddwn i'n eu cofio ond bydd y fflam rhyngom mae'n siŵr yr un mor llachar. Mae'n anrhydedd i'r ddau ohonom allu rhannu'r llwyfan gyda cherddorion mor ardderchog ac mae'n addo bod yn noson arbennig iawn.

"Mae'n anhygoel meddwl bod blwyddyn wedi mynd ers i Stafell Fyw Caerdydd agor ei drysau am y tro cyntaf. Bydd Slepjan! nid yn unig yn ddathliad o'r hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn ond hefyd, gobeithio, yn codi'r arian angenrheidiol i sicrhau y gall Stafell Fyw Caerdydd barhau i ddatblygu o nerth i nerth."

Mae Stafell Fyw Caerdydd yn ganolfan adfer yn y gymuned sy'n gweithredu ymagwedd "pob dibyniaeth" ac sy'n croesawu unrhyw un sydd angen cefnogaeth i gymryd y cam cyntaf tuag at eu hadferiad neu i gynnal eu hadferiad cynyddol. Mae Stafell Fyw Caerdydd hefyd yn croesawu ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth i aelodau teulu, partneriaid a ffrindiau pobl sydd wedi'u heffeithio gan y dibyniaethau hyn.

Pris tocyn fydd £10 i oedolyn a £5 i blentyn ac maen nhw ar gael oddi wrth Spillers Records Caerdydd, Derricks Records Abertawe ac ar-lein ar www.sadwrn.com neu drwy ffonio Stafell Fyw Caerdydd ar 029 20 493895

## CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*
*029 20890979*

**Priodas yr haf!**

Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 21ain priodwyd Fiona (MacDonald) a Rhodri Jones yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchg. Eirian Rees yn ei ffordd ddi-hafal ei hun. Roedd yn wasanaeth hyfryd - y capel yn llawn - y gweision a'r morynion yn cyflawni eu dyletswyddau yn ardderchog - a'r canu yn ogoneddus! Mae Rhodri yn aelod o Gôrdydd, ond chafodd e mo'r cyfle i gyd-ganu gyda'i gyfeillion ar ei ddiwrnod arbennig ef! Cafwyd datganiadau hyfryd gan y côr ac unawd gan Nia Tudur - oedd yn hudolus. Cynhaliwyd y wledd yn Ystâd Tŷ Pencoed, Capel Llanilltern. Llecyn arbennig iawn. O gofio'r haf trychinebus gafwyd o ran tywydd eleni - buodd Fiona a Rhodri yn hynod ffodus o gael haul ar y fodrwy - trwy'r dydd! Bargyfreithiwr yw Rhodri wrth ei alwedigaeth ac mae Fiona yn therapydd lleferydd. Maent bellach wedi ymgartrefu yn Nhreganna, Caerdydd. Pob bendith eich dau!

**Gorsedd**

Llongyfarchiadau i Arwel Ellis Owen ar gael ei urddo i'r Orsedd yn Eisteddfod y Fro.

## GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
*Betsi Griffiths*

**Adferiad Buan**

Dymuniadau gorau i Betsi Griffiths ar ôl cael llawdriniaeth ar ei chlun yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Betsi ar gael ei derbyn i'r Orsedd. Fe wnaeth ymdrech arbennig i gerdded i'r Maen Llog i'w chyfarch gan yr Archdderwydd. Cwta tair wythnos ar ôl y llawdriniaeth.

## GWAELOD Y GARTH A FFYNNON TAF

*Gohebydd Lleol: June Huws*

**Ysgol Haf Catrin Finch**

Roedd telynnau'n frith yn y pentref, a nodau soniarus yn yr awel yn ystod yr ysgol haf, ddiwedd mis Gorffennaf. Cyhaliwyd cyngerdd gwefreiddiol yng Nghapel Bethlehem ar y nos Iau, pan fu telynorion o mor bell i ffwrdd ag Awstralia, Hong Kong a Hwngari yn cymryd rhan, ynghyd â'u hathrawon Catrin Finch ac Elinor Bennett.

Ar y p'nawn Sadwrn, yn ddiweddglo i ddiwrnod o Hwyl i'r Delyn, cynhaliwyd cyngerdd byr yn neuadd y pentref, lle bu plant yn cyd-chwarae gyda'r telynorion hyn. Cyflwynwyd Cân Y Garth, darn a gyfansoddwyd ar y cyd yn ystod y bore.

Y gobaith yw cynnal ysgol haf eto y flwyddyn nesaf ac os na fuoch yn ddigon ffodus i fod yn y cyngerdd y flwyddyn hon, gwnewch yn siwr o'ch tocyn y tro nesaf.

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Heather Davies Rollinson o Waelod-y-garth, wedi iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty'r Mynydd Bychan yn ddiweddar.

# Cwis Cymdeithas yr Iaith

Yn ystod yr haf mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn ymweld â chymunedau ledled Cymru gyda thaith Tafod. Dewiswyd pentre Efail Isaf fel un cyrchfan ar gyfer y daith yn dilyn sylwadau gan Vaughan Roderick am dwf y Gymraeg yn yr ardal.

Yn wir, roedd y cwis, dan ofal Tomos Morse, a gynhaliwyd yn y pentref ar ddiwedd mis Gorffennaf, yn dyst o gryfder y Gymraeg yn yr ardal hon gyda chynrychiolaeth o dimoedd gan Glwb y Dwrlyn, Capel y Tabernacl, Twrw Taf, Parti'r Efail a Dawnswyr Nantgarw. Er bod nifer o gymdeithasau cryf yn yr ardal nododd Helen Prosser ei bod hi'n bwysig peidio a llaesu dwylo a bod angen brwydro i sicrhau twf pellach i addysg Gymraeg yn yr ardal gan nad yw Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi agor un ysgol Gymraeg. Yn ogystal cafwyd cyfraniad hyfryd gan Huw M ar y nos.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth a llongyfarchiadau mawr i dîm 'Yr Ysgol Sul' o dan Gapteiniaeth Sian Elin ar eu buddugoliaeth ysgubol.





Trystan ac Osian Gruffydd, enillwyr y ddeuawd dawnsio yn Eisteddfod Llangollen



Brett a Michelle Duggan, Pontypridd. Mae Gethin wrth ei fodd yn helpu gyda'i chwaer newydd, Cadi Ann



Ar ddiwedd wythnos o hyfforddiant gan Catrin Finch ac Elinor Bennet yn Academi'r Delyn, cynhaliodd telynorion ifanc o bob cwr o'r byd gyngerdd yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth.



Priodas Michael Gray ac Angharad Pritchard Copley, Efail Isaf (tudalen 9)



Priodas Fiona (MacDonald) a Rhodri Jones (tudalen 3)



Clwb y Dwrlyn ar daith gerdded yn Sir Benfro (tudalen 5)



# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

**Babis Newydd**
Llongyfarchiadau i Nerys ac Andy, Coed y Cwm ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Ela Mai McDonald ar Fai 12fed. Mae Nerys yn athrawes yn Ysgol Gynradd Bodringallt.

Ym Mis Gorffennaf ganwyd merch fach i Brett a Michelle Duggan. Mae Gethin wrth ei fodd yn helpu gyda'i chwaer newydd, Cadi Ann. Croeso nôl iddynt fel teulu i Graigwen! Mae Pauline, mam Brett wedi symud i'w hen dŷ nhw yn Stryd Zion. Pob hapusrwydd i chi yn eich cartrefi newydd.

**Merched y Wawr**
Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor nos Iau, Medi 13eg. gyda thaith gerdded ar Lwybr Taf gan ddechrau yn agos at Asda, Coryton. Byddwn yn mynd i'r Plough yn Yr Eglwys Newydd am fwyd ar ddiwedd y daith.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Margaret Francis 492838

**Swydd newydd**
Llongyfarchiadau a phob hwyl i Vicky Mann, gynt o Parc Prospect, Graigwen wrth iddi ddechrau fel athrawes fathemateg yn Ysgol Gyfun Llanhari.

**Clwb Llyfrau**
Byddwn yn cwrdd am bryd o fwyd i drafod a dewis cyfrolau'r misoedd nesaf nos Fawrth, Medi 18fed. Cysylltwch â Jayne am fwy o wybodaeth 405837.

**Llongyfarchiadau**
Dymuniadau gorau i Chloe a Ben Searle. Priodwyd y ddau yn Eglwys Sant Catherine ym mis Gorffennaf. Mae Chloe yn ferch i Suzanne a Mike Hopkins, Parc Prospect, Graigwen. Roedd hi'n un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Evan James. Maent wedi ymgartrefu yn Nhonypandy.

**Pen-blwydd Hapus**
Llongyfarchiadau i Eurgain Haf, Y Comin wrth iddi ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Gorffennaf.

**Clwb y Bont**
Enillwyr lwcus Clwb 200 mis Gorffennaf yw Craig Duggan, Leanne Wood a Peter Davies. Maent yn derbyn £100 yr un.

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

**Penwythnos Cerdded Clwb y Dwrlyn**
Ddiwedd Mehefin aeth nifer o aelodau Clwb y Dwrlyn draw i Glwb Golff Trefdraeth ar gyfer y penwythnos cerdded blynyddol . Fel gweddill y mis nid oedd y tywydd yn ffafriol; yn wir ysgubai glaw trwm dros y bae brynhawn Gwener er i rai, mwy mentrus, lwyddo i chwarae golff. Fodd bynnag codwyd calonnau pawb yn y nos wrth gymryd rhan yng nghwis Gary Sam a'i gynorthwywraig ffyddlon, Katrina.

Y tro yma, y cynllun oedd cerdded y darn o lwybr yr arfordir rhwng Trefin a Melin Tregwynt – taith rhyw 7 milltir o hyd gydag opsiwn i'r rhai llai mentrus gerddedd taith ychydig yn fyrrach o Abercastell i'r Felin.

Yn ffodus, er y bygwth, ni chafwyd glaw o gwbl; yn wir cafwyd tipyn o awyr las gan roi cyfle i bawb ryfeddu at harddwch yr arfordir a'r blodau gwyllt. Cyrhaeddodd pawb Felin Tregwynt yn sych, er ychydig yn fwdlyd a braf oedd cael seibiant i gael te yno ac edrych o gwmpas y siop cyn troi'n ôl am Drefdraeth.

Bu tipyn o ganu wedi swperu nos Sadwrn ond nid cyn i Peter ddiolch am y gefnogaeth gafodd fel cadeirydd gydol y flwyddyn ac yna drosglwyddo'r awennau i'r pen bandit newydd - sef Gary. Pob lwc iddo ef a'i bwyllgor wrth fynd ati i drefnu rhaglen y flwyddyn nesaf. Mae croeso mawr i aelodau newydd felly dewch i ymuno â ni.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Gwyneth a Mal Jones a'r teulu wedi i Gwyneth golli ei mam ddiwedd mis Mehefin. Un o Lan Ffestiniog oedd Mrs. Nansi Lloyd Williams yn wreiddiol ond bu'n byw yn Yr Eglwys Newydd am rai blynyddoedd cyn iddi golli ei hiechyd. Cydymdeimlwn hefyd â Richard Elms wedi marwolaeth sydyn Jenny, ei wraig. Bydd llawer ohonom yn cofio Jenny yn gweini'n serchog y tu ôl i gownter siop gig Richard.

**Dathlu**
Llongyfarchiadau i Gill a Wyn Rees ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i Ann Jones ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Bydd y "bus pass" yn ddefnyddiol iawn!

# Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Eleni mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru (CELlC) yn cynnal ei chynhadledd flynyddol yng Nghaerdydd ar 6 Hydref 2012. Rhai o'r pynciau dan sylw fydd: Enwau Cymraeg ym Mhatagonia; Patrymau enwi caeau ar Fapiau'r Degwm; Yr adnoddau ar gyfer astudio enwau lleoedd yn Archifau Morgannwg; Enwau Lleoedd y Sipsiwn; cofnodi enwau'n ddigidol. Agorir y gynhadledd gan Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg.

Ysgolhaig a fu'n datgloi cyfrinachau enwau lleoedd Sir Forgannwg yw'r Athro Gwynedd Pierce. Fe ddethlir ei gyfraniad yng nghynhadledd eleni a'i groesawu'n Llywydd er Anrhydedd y Gymdeithas.

Cynhelir y gynhadledd yn adeilad newydd Archifau Morgannwg yn Lecwydd, Caerdydd. Mae digonedd o leoedd parcio. Bydd croeso cynnes yno i bawb. Cewch fanylion pellach ar wefan y Gymdeithas:
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

Cost y gynhadledd yw £20 i aelodau CELlC (£25 i eraill) a fydd yn cynnwys cinio te/coffi. Mae adnoddau cynadledda'r Archifau yn golygu y gallwn ddarparu ar gyfer 80 o gynadleddwyr yn unig.

Ddywywaith y flwyddyn mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn cyhoeddi Cylchlythyr a fydd o ddidordeb i gyfeillion â chanddynt ddiddordeb ym maes enwau lleoedd. Ceir manylion ymaelodi ar wefan y Gymdeithas neu gellir cysylltu ag Angharad Fychan:
angharad.fychan@googlemail.com i gofrestru ar gyfer Cynhadledd Hydref 2012.

Wedi ymaelodi â CELlC byddwch yn derbyn eich copi o'r Cylchlythyr yn rhad.

**Dymuniadau Da**
Dymunwn yn dda i Tessa Hartog, Penffordd wedi iddi dorri ei choes. Gobeithio y caiff wared ar y plastar cyn hir.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau gwresog i Cerian Hughes a Leon Williams ar eu dyweddiad. Mae Cerian yn dditectif gwnstabl yn yr heddlu a Leon yn athro yn Ysgol Gynradd Christchurch yn Abertawe. Dymunwn bob hapusrwydd

## ARLWY TYMOR CLWB Y DWRLYN

### "Cracer"

Mae tymor nesaf Clwb Y Dwrlyn yn argoeli i fod yn "gracer" arall – ton ar ôl ton o nosweithiau o ddiddanwch a mwynhad i bawb. Ble bynnag rydych chi'n byw – sdim ots o gwbl – does dim i'ch rhwystro rhag ymaelodi a mynychu. Yno i'ch croesawu, bydd y Cadeirydd rhadlon am y flwyddyn, Gary Samuel.

Bydd ymweliad y cerddor cyfareddol Rhys Jones â'r noson agoriadol yn debygol o bacio'r Clwb Rygbi ym Mhentyrch i'r drysau. Cytunodd y cyfansoddwr, arweinydd, darlledwr a 'raconteur' i ddod lawr bob cam o Brestatyn bell i agor ein blwyddyn. Peidiwch â cholli'r noson unigryw hon.

A thra bo chi yno, bwciwch eich lle yn y cinio Nadolig (Rhagfyr 18 yn De Courceys) ac ar y daith gerdded yn Sir Benfro (Mai 17 & 18, 2013 yn Nhrefdraeth). Cyntaf i'r felin am y rhain –felly dewch yn gynnar ar y noson i sicrhau eich lle!

Ym mis Hydref, tro'r Dwrlyn fydd cynnal Cylch Cadwgan – a'r ddawnus Sharon Morgan sydd i fod i ymweld â ni. Bydd y manylion a'r dyddiadau i gyd ar eich cerdyn aelodaeth, fydd ar werth ar y noson agoriadol. Dychweliad hen ffefryn, Geraint Huws, Y Groesfaen, yn cloriannu'r Brethyn Cartref fydd atyniad Mis Tachwedd. Cyfeiriwyd eisoes at y Cinio Nadolig a bydd hefyd noson o ganu carolau o gwmpas strydoedd yr ardal ar drothwy'r Ŵyl.

Wedi llwyddiant digamsyniol y Noson o Ganu Plygain yn Eglwys Sant Catwg, Pentyrch, y llynedd, bwriedir dychwelyd yno eleni ar Ionawr 10. Roedd yr eglwys yn orlawn llynedd – felly, dewch yn gynnar i gael sedd. Mis Chwefror ydy mis y Cardiau Chwist gyda Jim Morris yn cadw trefn. Yr un mis bydd y Rifiw Blynyddol yn taflu golwg wamal ar ddigwyddiadau'r deuddeg mis blaenorol – noson arall sy'n llawn o ryfeddodau, bwriadol ac anfwriadol.

Bydd y Cinio Gŵyl Ddewi'n dychwelyd i Glwb Golff Creigiau (Mawrth 3) a hynny yng nghwmni "Rocet" Arwel Jones. Ym mis Ebrill, Frank Lincoln, fydd yn ein diddanu, tra bydd y daith ar lwybr arfordir sir Benfro ym mis Mai – ddeufis ynghynt na'r blynyddoedd diwethaf. Yna, i gloi gweithgareddau'r tymor, ym Mehefin, bwredir cynnal Bwffe Haf a dawnsio gwerin ac adloniant yn y Clwb Rygbi – ac os bydd y tywydd yn garedig, cawn fod tu fas.

Mae'r blynyddoedd diweddar wedi denu nifer o aelodau newydd i'n plith. Os nad ydych chi wedi bod o gwbl – ystyriwch hynny eleni. Mae'r mwyafrif o'r digwyddiadau ar nos Fawrth, fel arfer yn y Clwb Rygbi, lle mae stafell foethus a chwmniaeth anffurfiol. Does dim amodau ac eithrio tâl aelodaeth afresymol o isel!

## Ysgol Garth Olwg

**Cystadleuaeth Gwenynen Geiriau**

Llongyfarchiadau i dîm Garth Olwg am ennill y gystadleuaeth yn erbyn Ysgol Gynradd Dolau. Roedd hi'n agos iawn iawn gyda sawl sefyllfa clwm, a thîm Ysgol Dolau ar y blaen hyd at y rownd derfynol. Ond llwyddodd Olivia Leyshon Blwyddyn 3 , Huw Griffiths Blwyddyn 4, Francesca Sieniawski Blwyddyn 5 a Leah Cole Blwyddyn 6 i ennill yn y rownd olaf 'Blockbuster' gyda sillafu bendigedig.

Roedd y cystadleuwyr eraill wedi brwydro yn galed yn ystod y rowndiau 'i -pad', amlddewis a'r rownd amseru. Roedd hi'n fore o hwyl i ddathlu gallu disgyblion talentog iawn. Llongyfarchiadau mawr i chi!

**Ffair Haf yr Ysgol**

Diolch i bawb a gefnogodd ein Ffair Haf. Gwnaed elw o £1,248.45.

**Gwaith Celf**

Mae gwaith Celf y disgyblion nawr yn cael ei arddangos yng nghyntedd Y Ganolfan Gydol Oes.


## Bore Coffi'r Dysgwyr

**Bore Coffi i'r dysgwyr yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob bore Gwener o 11 hyd hanner dydd. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.**

## Gwefannau Cymraeg

www.cymorth.com
www.gwefan.org
www.tafelai.com
www.tabernacl.org
www.menteriaith.org
www.gwe-bethlehem.org
www.urdd.org
www.mentercaerdydd.org
www.comisiynyddygymraeg.org
www.banglacymru.org.uk

## Eco'r Gweld




Yn yr Eisteddfod cyhoeddwyd Eco'r Gweld gan Cyril Jones, casgliad o gerddi mewn amrywiaeth o wahanol fesurau a chyweiriau. Ceir yma gyfuniad o ganu caeth a chanu rhydd, a hynny mewn cyweiriau llon a lleddf. Cyfrol â thafodiaith Ceredigion yn llifo drwyddi gan un o feirniaid cystadleuaeth y Goron eleni.

Brodor o ardal Cross Inn a Phennant yng Ngheredigion yw Cyril Jones, ond bellach mae'n byw yng Nglyn-taf, Pontypridd. Enillodd Goron Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1992.

Cyhoeddiadau Barddas: £6.95

## Mudiad Meithrin

Mae Cylch Meithrin Miskin yn symud i leoliad newydd yn Llanhari. Mae gennym adeilad i'n hunain drws nesa i'r *Working Men's Club*. Bydd modd cyflwyno'r cyfnod sylfaen a chynnig cyfleoedd a phrofiadau heriol i blant mewn amgylchedd hapus a chyfeillgar. Mae Rhiannon Murray yn ymuno â'r tîm ac mae'r ddwy arweinyddes yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gweithio tuag at lefel 5. Rydym yn bwriadu cyd-weithio ag ysgol newydd Gymraeg Llanhari ac ysgol Dolau.

Drws nesa i Llanhari Working Men's Club
Llun – Gwener 9.30 – 11.30 1 – 3pm

**Cylch Meithrin Pontyclun**
Capel Hope Penuel, Heol Castan
Llun - Gwener
9am – 12 1-3pm
07912 101506

**Ti a Fi Pontyclun**
Eglwys Bethel Baptist
Gwener 10-12

Teleri Jones
Swyddog Datblygu Rhondda Taf
Teleri.Jones@meithrin.co.uk
07800 540316

# LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

*Gohebydd y Mis:*
*Rhiannon Price*

**Damwain annisgwyl**
Dymunwn wellhad buan i Glenys Davies o Feisgyn ar ôl iddi gael llawdriniaeth ar ei throed yn ddiweddar. Fe gwympodd Glenys yn yr ardd pan oedd yn cario un o'i hwyrion, a thorri asgwrn yn ei throed. Gobeithio y byddi'n cerdded o gwmpas yn hollol ddi-boen cyn bo hir.

**Penblwydd Hapus**
Dymuniadau gorau i Beryl Rowlands o Westhill Drive, Llantrisant, sy'n dathlu penblwydd arbennig y mis yma. Pob hwyl i ti!

**Llongyfarchiadau**
Fe enillodd grŵp bach o Borthcawl y wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Y gystadleuaeth oedd parti Cerdd Dant i adrannau. Yr hyfforddwr oedd Llinos Swain o Lantrisant. Mae gan Llinos gysylltiad teuluol agos â Phorthcawl. Da iawn chi i gyd!

**Gwellhad buan**
Dymunwn lwyr wellhad i Mrs Morris, sef mam Sian Davies, Portreeve Close Llantrisant ar ôl iddi gwympo a niweidio'i phenglin. O ganlyniad mae wedi cael gwyliau hir gyda Sian a Geraint a gofal arbennig yn ystod y cyfnod hwn. Mae Geraint, gŵr Sian hefyd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei ysgwydd. Gwellhad buan i ti!

**Llyfr y Flwyddyn**
Llongyfarchiadau gwresog i Allan James, Portreeve Close, Llantrisant ar ennill gwobr "Llyfr y Flwyddyn" eleni am ei lyfr ar Syr John Morris Jones, yng nghategori Cyfrol Ffeithiol Greadigol.
Rydym i gyd mor falch ohonot.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Jayne a Wayne Griffith a Rhys eu mab, o Forest Hills, Tonysguboriau, ar golli Rhian, eu merch, ar ôl salwch enbyd dros gyfnod hir. Ni all geiriau wir fynegi ein tristwch. Roedd Rhian yn weinyddes feithrin yn Ysgol Gymraeg Llantrisant lle bu yn ddisgybl, cyn mynd i Ysgol Gyfun Llanhari.



**Yn Siop y Ganolfan, Merthyr**

**Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a'r cylch.**
Falle roedd hi'n ddiwrnod eithaf diflas o ran y tywydd ar Fehefin 23 ond cafodd rhai o aelodau'r Gymdeithas ddiwrnod hyfryd ym Merthyr. Eifiona a Cliff Hewitt oedd wedi trefnu'r daith a chawson ni ddim ein siomi o gwbl drwy'r dydd. Fe ymwelon ni â chastell Cyfarthfa a chael cyfle i fynd o gwmpas y lle, yn ogystal â chael gwybodaeth ddifyr iawn am hanes y tŷ a'r diwydiannau ym Merthyr yn ystod y ddeunawfed ganrif. Roedd yn amser caled iawn i'r gweithwyr yno ar y pryd.

Yna, ar ôl cael disgled fach o de neu goffi, aethom i weld Canolfan Gymraeg y dre sydd wedi cael gwedd newid aruthrol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd yno groeso mawr a chawsom ginio blasus a chyfle i brynu rhai nwyddau yn y siop Gymraeg. Drws nesaf i'r ganolfan mae'r capel wedi cael ei addasu i fod yn theatr gwych.

Yna, ychydig i lawr y ffordd fe wnaethom ymweld ậ'r Llyfrgell ac fe gawsom hanes y lle wedi'i draddodi yn Gymraeg gan ferch ifanc sy'n gweithio yno.

Y lle nesaf i ni ymweld ag ef oedd Eglwys Dewi Sant. Wrth i ni gerdded i mewn cawsom ein swyno gan Carey Williams oedd wrth ei fodd yn canu'r organ bib fendigedig yno! Bu'n tywysydd a arferai fod yn athro Mathemateg, yn rhoi disgrifiad o'r ffenestri prydferth sydd yn yr eglwys.

Ac i orffen ar nodyn cerddorol arall, fe ymwelon ni â thy'r cerddor, Dr Joseph Parry. Roedd digon i'n diddanu yno ac roedd yn ddiddorol edrych ar y gwrthrychau yn y ty a darllen yr hanes amdano.

Diwrnod difyr iawn. Diolch yn fawr i Cliff ac Eifiona o Efail Isaf.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i holl bobl ifanc yr ardal sydd wedi derbyn canlyniadau TGAU a lefel A yn ystod y mis. Pob llwyddiant i chi yn y dyfodol.

Gohebydd y mis nesaf—Rhiannon Price
01443 223282 / rmprice46@gmail.com

# Merched y Wawr Tonysguboriau

Mae dwy o sefydlwyr cangen Tonysguboriau o Ferched y Wawr wedi ymddeol o'u swyddi. Dysgwragedd yw'r ddwy a gynorthwyodd i sefydlu'r gangen er mwyn helpu dysgwyr yr ardal i ymarfer a chlywed y Gymraeg. Mae'r gangen wedi tyfu i tua phump ar hugain erbyn hyn a'r rhan helaeth ohonynt yn ddysgwyr.

Mae Brenda Davies yn ymddeol o'i swydd fel ysgrifenyddes ar ôl pedair mlynedd ar ddeg, ac mae Merle Roberts yn ymddeol o'i swydd fel cadeirydd ar ôl wyth mlynedd.

Yng nghyfarfod olaf y flwyddyn, cafwyd adloniant gan y grŵp "Half Tidy" (sydd hefyd yn ddysgwyr) ac wedyn cyflwynwyd tocynnau rhodd i Brenda a Merle gan Beti Thomas, Trysorydd, ar ran y gangen.

Diolch yn fawr i'r dwy a phob lwc i'r swyddogion newydd sydd yn eu dilyn.





Beti Thomas, (chwith) yn cyflwyno rhoddion i Merle Roberts a Brenda Davies.

Angen siarad yn gyfrinachol?
**SAMARIAID**
**Llinell Gymraeg**
**0300 123 3011**

# Huotlach na Herr Hitler!

(Erthygl gan Twm Morys, y Golygydd, yn rhifyn yr Eisteddfod o Barddas)

Ym mis Mawrth 1939, daeth Morris 8 glas ar hyd ffordd Llanharan ym Morgannwg, a fan yn ei ddilyn. Yn y car roedd darlithydd Cymraeg ifanc o Goleg y Brifysgol, Caerdydd, â diddordeb arbennig yn y Wenhwyseg, ac yn y fan roedd dau ddyn sain o'r BBC yn Llundain

T.J. Morgan o'r Glais oedd yn y Morris 8. Roedd o ar daith ar ran y Bwrdd Gwybodau Celtaidd yn recordio siaradwyr oedrannus hen dafodiaith y de -ddwyrain. Roedd 'na bethau mawr tywyll ar droed yn y byd adeg hynny, on'd oedd? Ond does dim sôn am hynny yn y sgyrsiau, wrth reswm. Ar hen recordiau mawr tew y cadwyd nhw, a'r Wenhwyseg hyfryd — y caletu, a cholli 'h', a'r 'u' ogleddol ryfedd, a 'ciæth' a 'sær' yn lle 'câth' a 'saer' — yn canu ac yn dawnsio drwyddyn'. Braidd yn siomedig ydi'r deunydd ar y cyfan, efallai, i'r sawl sydd â diddordeb mewn hen arferion a llên gwerin a phethau felly, ond pan ddaeth T.J. Morgan i blwy Llanharan — gwta bum milltir i'r gogledd o Landŵ a maes y Brifwyl eleni — doedd dim taw ar y penillion a'r tribannau. Doedd y ddau ddyn BBC, yng nghanol eu deials dyrys a'u ceblau, ddim callach. Dyma ichi ychydig o sgwrs 'Mrs Miles' a Henry David o ardal Llanharan a Llantrisant ...

Mrs Miles yn gynta':
Dyma hen giæn glywais i 'Næd yn 'i gweud… O'dd rhyw fachan yn ardal Llan'aran wedi ffraeo gyda'i wejan, a fel 'yn gwnaeth a gianu iddi:

Pan elo'i nesa' i giaru'r un læn
Bydd pentra Llan'aran yn belan o dæn,
A chyllath y bwtsiwr gan Gwen yn lladd gwair
Ac orinj yn tyfu ar dwyn Eclws Fair.

Pan elo'i nesa' i giaru'n un dlos
Bydd Mynydd Garth Maelwg yn dwmpyn o do's,
A Neli'n gwneud teishan o fynydd Tal Fan,
A chyrrans a resans yn tyfu 'mhob man.

Pan elo'i i nesa' i giaru'r un fwyn,
Bydd hops ar yr eithin a bræg ar y brwyn,
A'r sêr yn yr awyr yn sefyll yn syn,
A'r afon yn rhedeg i fyny y bryn.

Pan elo'i i nesa' i giaru'r un gu,
Bydd esgob Tyddewi ym Mhlæs y Wern Ddu,
A minna' yn frenin ar bawb drwy y tir;
Hyd 'ynny, does gobaith cymodi, mae'n wir!



**Twm y Glais**

Henry David wedyn:
O'n i'n byw, yn catw busnas yn Llantrishant. A hen giât y L1an... O'dd pawb yn trio gochelyd mynd trwyddi os gallen nhw. Ond ambell i waith o'dd rhaid iddyn nhw fynd. Ac o'dd na ddyn o Ben-Côd ar gefan ei geffyl yn mynd trwy'r tyrpeg - trïws fynd heb dalu. A dyma'r tollwr allan…

'O ble ŷch chi'n dod?' 'O Ben-Côd'.
'I ble ŷch chi'n mynd?' 'I weld 'yn ffrind'.
'Mae yma dyrpeg...' 'O's, mae'n debyg!'
'Mae rhaid ichi da1u.' 'Tewch â walu!'

A mawr fu'r sôn 'i fod a wedi gorfod talu 'efyd!

O'dd Bro Morgannwg 'slawar dydd yn 'ynod iawn am 'nuthur rhyw bennillion... 'Tribanna' o'n ni'n galw nhw, 'Tribanna' Morgannwg' Ac o'dd 'na giarictors 'ynod yn eu gwneud nhw. O'dd 'rhen Ropin Rypli yn un. O'dd a'n gweitho yn Pen-côd... Ac o'dd Ropin wedi priodi merch Siôn Payne, ac un dal fain o'dd hi 'efyd:

Mae rheitach gwaith gen Ropin
Na thrio torri englyn:
Ffindo bwyd i ferch Siôn Payne,
Mae i'w gweld yn fain ers ticin!

O'dd fferm acw yn y Fro, ac o'n nhw wedi llædd mochyn. Ac o'dd un dyn dipyn bach yn ddiweddar yn mynd miwn i gino. Wrth gwrs, o'dd gennyn nhw ddigon o botan yno a chig. Ond o'dd y bechgyn erill wedi byta'r cig i gyd. Pan ddæth a mâs, fe ddywad wrth y meistir:

Mi ges fy ngwala o botan
A dwy ne dair patatan,
Ond am y cig, af ar fy llw,
Aeth Wiliam Siôn â'r cyfan!

TJM: Mae rhagor o dribanne'?
HD: O's! Llawer racor...

A dyna Henry David yn adrodd yn hwyliog iawn res o dribannau roedd o wedi eu dysgu gan ei dad. Mae rhai o'r rhain i'w cael yn *Tribannau Morgannwg*, Tegwyn Jones, ond chydig yn wahanol. 'Aethnen' ydi ystyr 'aethbrwd' ym mhennill y 'Tri pheth na saf...', yn ôl Henry David ei hun. Ac mae'n siŵr gen i mai 'tair merch hardd' sydd i fod yn y llinell g1o yn hytrach na 'tair merch lan'.

Mi fuo'n Gefan Cripwr,
Mi welas bum cyneifwr,
Gwäydd a sadlar, gof a sær;
Doedd neb mor dær â'r teilwr.

Mi godais acha bora,
Ac etho i lawr i'r Morfa;
Mi welais ddyn a *breeches* gwyn
Yn cario Cwîn Victoria.

Tri peth sydd gæs a lletwith:
Hwch a iwc mewn gwenith,
Atcor wan yn torri ton,
A lot o gryddion dwrnwith.

Mae gen i bedwar bwlyn
(Rwy'n cyfri 'ynny'n dipyn)
Nhw dorran' don, os bydd a'n sych,
'Run drwch â gwrych y mochyn.

Tri pheth na sæf heb shiglo:
Y llong ar y môr yn *sailo*,
Dail yr aethbrwd yn yr ærdd,
A thair merch læn yn dawnsio.

Mi welas ddwy lygotan
Yn llusgo'r *coach* yn llawan
O Gaerfyrddin i Gaerdydd
Â llestri pridd ac 'alan.

Ganol y mis hwnnw, mis Mawrth 1939, goresgynnodd yr Almaen Czechoslovakia, a rhyfedd ydi meddwl am 'Mrs Miles' a Henry David yn adrodd eu penillion diniwed yr un adeg â Hitler yn gweiddi o ffenest uchel yng nghastell Prâg. Roedd T.J. Morgan wedi bwriadu parhau â'r gwaith recordio, a phwy a ŵyr pa drysorau eraill fyddai ar gof a chadw inni heddiw petai wedi cael? Ond mi dduodd yr awyr, ac mi aeth y fan a'r ddau ddyn BBC yn eu holau i Lundain i wneud gwaith pwysicach…

(Diolch i Twm Morys am ei ganiatad i ail-gyhoeddi ei erthygl)

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Ddoctor Angharad Pritchard Copley a Michael Gray ar achlysur eu priodas yng Nghapel Highfields, Caerdydd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 14eg. (Llun tudalen 4)

Gweinyddwyd y seremoni gan y Parchedig Peter Baker. Roedd y briodferch yn edrych yn hyfryd iawn mewn gwisg les, lliw ifori ac roedd yn cario tusw o rosod cochion. Coch oedd lliw gwisgoedd y morynion hefyd, Ria Morgan (chwaer Angharad), Rebecca Gray (chwaer Michael) Dr Karen Au-Yeung, Susanne Kumar a Michelle Tang (ffrindiau Angharad). Y gwas priodas oedd Stephen Cassells.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng Nghastell Fonmon ac fe dreuliodd y pâr eu mis mêl yng Ngwlad Thai. Merch hynaf John a Margaret Pritchard Copley yw Angharad ac mae Michael yn frodor o Lundain. Bydd y ddau'n ymgartrefu yn Rhydychen, Michael yn hanesydd ac yn dysgu yn y ddinas ac mae Angharad newydd gael ei phenodi'n seiciatrydd i Gyngor Rhydychen. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

**Priodas Ruddem**
Bu'n gyfnod prysur i'r teulu ym Mhenywaun gyda John a Margaret Pritchard Copley hwythau'n dathlu eu priodas Ruddem ar y cyntaf o Orffennaf. Llongyfarchiadau i chi eich dau.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Mathew Rees,, mab hynaf Ioan a Liz Rees, Heol yr Orsaf sydd wedi derbyn gradd o Goleg UWIC, Caerdydd.

**Triniaeth yn yr Ysbyty**
Dymunwn yn dda i Pat Edmunds, Penywaun sydd wedi derbyn triniaeth ar ei llygaid yw Ysbyty'r Waun yn ystod y gwyliau.

**Swydd Newydd**
Mae Ffion Rees, merch hynaf Geraint a Caroline Rees, Penywaun, wedi ei phenodi'n Swyddog Datblygu Cymunedol gyda Menter Caerffili. Llongyfarchiadau a dymuniadau da iti, Ffion.

**Llwyddiant Llangollen**
Llongyfarchiadau i Trystan ac Osian, meibion Hefin a Lowri Gruffudd, Nantcelyn, ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Bu'r ddau'n fuddugol yn y ddeuawd dawnsio a dyfarnwyd yr ail wobr i Trystan yn y gystadleuaeth ddawnsio unigol. Roedd y ddau hefyd yn aelodau o gwmni dawns Adran Bro Taf a fu'n dawnsio yn seremoni agoriadol yr Eisteddfod.

**Ymddeol**
Dymuniadau gorau i Joan Smith, Heol y Ffynnon a ymddeolodd o'i gwaith yn ystod yr Haf.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ei cydymdeimlad llwyraf i Gillian Pike a'r teulu yn Llanilltud Faerdref ar golli tad Gillian yn ddiweddar.

**Cyhoeddi Nofel**
Llongyfarchiadau i David, mab hynaf Huw a Carol John, Heol Iscoed, sydd wedi cyhoeddi ei nofel gyntaf, "Flight from Berlin" yn America. Hyfforddwyd David fel cyfreithiwr, ond ym myd cyhoeddi a golygu llyfrau hanes a gwyddoniaeth mae'n ennill ei fara menyn erbyn hyn. Mae David yn credu mewn ymchwil trylwyr i'w nofelau a bu'n byw ym Merlin am gyfnod wrth ysgrifennu ei nofel. Ar hyn o bryd mae'n byw yn Seoul, De Korea wrth ymchwilio ar gyfer ei ail nofel. Mae wedi derbyn adolygiadau ardderchog i'w nofel gyntaf. Mae David yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymraeg garth Olwg ac Ysgol Gyfun Llanhari.

**Taith Haf i Faesyfed**
Mae gwibdaith dosbarth nos "mwynhau Llenyddiaeth" Canolfan Garth Olwg wedi dod yn ddyddiad pwysig i'w nodi yng nghalendr y teithiau Haf. Y prifardd Cyril Jones yw'r tiwtor sydd yn ein tywys i fannau diddorol yng Nghymru. Llynedd, dilyn ôl troed Waldo Williams drwy hud a lledrith Dyfed wnaethon ni, a'r flwyddyn cynt cawsom ein tywys i fwynder Maldwyn. Eleni Sir Faesyfed a'r gororau.

Mae Cyril yn gwybod sut i blesio ei deithwyr ac mi roedd pawb ar y bws yn fodlon braf ar ôl cael paned a theisen yng Nghaffi'r Pot Mêl ym Mrynllys. Fe deithion ni drwy'r Gelli Gandryll sydd bellach yn cynnal gŵyl lenyddol fwya'r byd ar adeg y Sulgwyn. Aros wedyn ger eglwys Cleirwyn lle bu Francis Kilvert yn gurad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Darllenodd Cyril ran o waith y dyddiadurwr hynod a ddisgrifiodd fywyd gwledig yr ardal mewn dull syml a lliwgar.

Croesi'r ffin wedyn i Swydd Henffordd i Geintun, man geni'r hanesydd enwog Francis Payne a fu'n bennaeth adran diwylliant materol yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Fe gyhoeddodd amryw o lyfrau taith ac yn eu plith y gyfrol ddiddorol "Crwydro Sir Faesyfed". Teithio tua Llanandras wedyn ac er nad oedd amser yn caniatáu i ni ymweld ag Amgueddfa Llys y Barnwr fe argymhellodd Cyril y byddai'n werth chweil i ni drefnu ymweld â'r amgueddfa "cyn marw" yng ngeiriau'r hanesydd John Davies. Ymwelsom â'r fan le bu Owain Glyndŵr yn ymosod ar fyddin Edward Mortimer ym Mryn Glas, a chael disgrifiad manwl ar ymladdfa ffyrnig. Daeth ein taith i ben yn Nhref y clawdd gydag ymweliad â'r Ganolfan i Ymwelwyr a chael cyfle i sefyll ar Glawdd Offa.

I orffen y diwrnod mewn steil cawsom bryd o fwyd hyfryd yng Ngwesty'r Knighton cyn teithio am adre a'r haul yn gwenu arnom. Rhaid aros yn amyneddgar am y gyfres nesaf o ddarlithoedd a'r wibdaith nesa.

## Y TABERNACL

**Merched y Capel**
Teithiodd nifer o ferched y Capel ar y trên o Gaerdydd i Gaerfyrddin ddydd Mercher, Gorffennaf 11eg. Mwynhawyd pryd o fwyd hyfryd yng Ngwesty'r Falcon a chafwyd cyfle i sgwrsio'n hamddenol cyn cerdded trwy'r farchnad a threulio orig fach yn siopa yn y ganolfan siopa newydd.

Y cyfarfod nesaf fydd ymweliad ag Eglwys Gadeiriol Llandaf ddydd Mercher, Medi 5ed.

**Llyfr y Flwyddyn**
Llongyfarchiadau gwresog i Allan James ar ennill y Wobr Categori Ffeithiol yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn. Ei fywgraffiad o fywyd a gwaith John Morris Jones ddaeth â'r wobr iddo. Mae aelodau'r Tabernacl yn falch iawn ohonot, Allan.

**Actor o Fri**
Aelod arall o gynulleidfa'r Tabernacl sydd wedi serennu'n ddiweddar yw Aled, mab Gareth a Rhiannon Humphreys. Bu'n actio yn y Ddrama Gerdd "Sneb yn Becso Dam" gyda Theatr Ieuenctid yr Urdd. Roedd yn portreadu mwy nag un cymeriad ac mi roddodd Aled gant y cant o ymdrech wrth berfformio. Dymuniadau gorau iti, Aled yn y Coleg ger y Lli ym mis Medi.

**Priodas**
Llongyfarchiadau i Fiona MacDonald a Rhodri Jones ar eu priodas yn y Tabernacl ddydd Sadwrn, Gorffennaf 21ain.

**Diwrnod i'r Brenin**
Fe fydd Gŵyl Gristnogol yn cael ei chynnal ar faes y Sioe yn Llanelwedd ar ddydd Sadwrn, Hydref 6ed. Bydd hon yn ŵyl i bawb o bob oed. Trefnir bws o'r capel, felly rhowch eich enw lawr ar y rhestr yng nghyntedd y capel os am sicrhau lle ar y bws

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Medi
Medi 2: Gwasanaeth Cymun dan ofal ein Gweinidog
Medi 9: Y Parchedig Aled Edwards
Medi 16: Keith Rowlands
Medi 23: Elenid Jones
Medi 30: Geraint Rees

# Llwyth

Sherman Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru Nos Sadwrn gêm ryngwladol ac mae’r brifddinas yn wyllt. Mae Cymru wedi colli ond mae pedwar ffrind hoyw’n benderfynol o gael noson i’w chofio. Yn dyner a direidus am yn ail, dyma ddrama sy’n taflu golwg feiddgar ar Gymreictod, gwrywdod, perthyn a chariad.

Bydd cast Llwyth yn gwneud eu taith olaf i Sherman Cymru yn dilyn taith ryngwladol i Ŵyl Gelfyddydau Taipei.

Dafydd James, Awdur: ‘It’s where it all began’: geiriau Aneurin ar ddiwedd Llwyth. Geiriau sy’n berthnasol iawn wrth feddwl bydd perfformiad ola’r ddrama yn digwydd yn Sherman Cymru ym mis Medi. Freuddwydiais i fyth pryd hynny y byse’r cynhyrchiad yn mynd ar daith deirgwaith ledled Cymru ac yn ymddangos mewn gŵyliau yng Nghaeredin a Taiwan. Mae wedi bod yn antur a hanner; mae’n braf cael dod adref.'

Dyddiadau:
Sherman Cymru, Caerdydd 25 Medi- 6 Hydref. 029 2064 6900

# TONTEG

*Gohebydd Lleol:*
*Gill Williams*

**Ffarwelio a Chroesawu**

Rydyn yn ffarwelio ag Allan ac Avril Pickard sy wedi symud i fyw yn Llandaf ar ôl mwy na deg ar hugain o flynyddoedd yn Crown Hill ac wedyn Ffordd y Gollen Tonteg. Bydd bwlch ar eu hol ond dw i'n siwr na fyddan nhw'n ddiarth ac fe gant y newyddion i gyd yn y "Tafod". Dymuniadau gorau iddynt yn eu cartre' newydd.

Tua'r un adeg ag roedd Avril ac Allan yn symud, fe ddaeth Dewi Rees a Leah Downes i fyw yn Neyland Close, Tonteg. Mae'r ddau yn athrawon a dyw'r un ohonyn nhw wedi dod o bell, Leah o Rydfelen a Dewi wedi gadael gweddill y teulu yn Efail Isaf. Croeso cynnes iawn iddyn nhw a dymuniadau gorau yn eu cartre' newydd.

**Ymddeol**

Mae Sian Jones o'r Ridings wedi dilyn ei gwr Pens ac ymddeol ar ddiwedd tymor yr haf. Amser i fwynhau'r ŵyr bach a'r garafan.

Cwpwl arall sy newydd ymddeol yw Glenys a Gordon Unnett, Neyland Close. Dymunwn flynyddoedd o fwynhad iddynt i gyd.

**Dymuno Gwellhad buan**

Mae Shirley Rees, Church Road yn gwella adre ar ôl cyfnod yn yr ysbyty wedi iddi gael trawiad ar y galon.

Mae Jan Lewis y Ridings hefyd wedi bod yn dioddef o salwch a hithe wedi treulio amser yn yr ysbyty. Gobeithio ei bod hi hefyd wedi gwella erbyn hyn.

Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r ddwy.

## CORNEL y Plant

**Ydy’r offer yma gennych chi yn ei cas pensiliau? Llenwch y bylchau ac yna cysylltwch yr enw â’r llun cywir**



P _ _ n
m _ _ _ r




Ch _ al _ _



M i _ i _ r

C _ m _ _ _ d

P _ _ s _ _









_ e _ r _

**Defnyddiwch y grid i ail-greu y llun o’r bws yn mynd i’r ysgol**



# ‘Presenoldeb’ rhyfedd yn y tŷ

I Delyth George o Gaerdydd, y profiad o fyw gyda ‘phresenoldeb’ arall yn llechu rhwng muriau ei thŷ, wnaeth ei sbarduno i lunio’r nofel i bobl ifanc Tebyg at ei Debyg? a gyhoeddir gan Wasg Gomer. Gall digwyddiadau trasig rwystro pobl rhag symud ymlaen o’r adeilad ble’r oedden nhw’n byw ar ôl iddyn nhw farw. Dyma gynsail nofel ddiweddaraf cyfres Whap! gan un o awduron yr opera sebon poblogaidd Pobl y Cwm. Ond dywed Delyth George nad oedd ei phrofiadau hithau mor ddramatig â chynnwys y llyfr hwn sy’n ffrwyth ei dychymyg.

Fel y teulu yn y nofel hon, symud o dawelwch Cwm Gwendraeth i fwrlwm dinas Caerdydd wnaeth yr awdures. Ond dianc a chwilio am lechen lân mae Owain, bachgen yn ei arddegau, a’i deulu yn Tebyg at ei Debyg? Datgelir bod trasiedi ofnadwy wedi dod i ran Owain a bod ei dad Penri wedi cael perthynas y tu allan i briodas. Ond mae mam Owain yn benderfynol bod symud i’r ddinas yn mynd i fod yn ateb i broblemau’r teulu i gyd!

Wedi symud i rif 45, Gerddi Plasturton, Caerdydd, fe ddaw hi’n amlwg fod crafangau’r gorffennol yn gryf ar y lle. Wrth i ofnau ac euogrwydd y teulu borthi’r egni anniddig sy’n bodoli ym muriau’r hen dŷ, tybed faint o ddihangfa sy’n aros y teulu mewn gwirionedd? Tybed oes yna berygl i hanes trasig arall ei ailadrodd ei hun?


Adroddir y nofel seicolegol hon yn bennaf drwy lygaid ifanc gyda’r cyfuniad o gyffro ac arswyd yn cydio’r darllenydd o’r cychwyn cyntaf. Yn hanu o Gefneithin, mae’r ddeialog dafodieithol yn rhoi blas arbennig o Gwm Gwendraeth i ni ac hefyd iaith Caerdydd.

Dau fyd â’r ffin annelwig rhwng y gorffennol a’r presennol yw cefndir y nofel afaelgar hon i’r arddegau.

Tebyg at ei Debyg?
Cyfres Whap!
Delyth George
Gwasg Gomer £5.99

# CROESAIR COL

## Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau



**Ar Draws**

3. Cwynfan (9)
8. Un sy’n rhwbio saim ar rwybeth (4)
9. Rhynllyd (8)
10. Ymgyflwyniad (6)
13. Cas llythyr (5)
14. Chwiban (7)
15. Brathiad (3)
16. Dynion doeth iawn (7)
17. Pil (5)
21. Heb fod yn gaeëdig (6)
22. Pentref yn ymyl Aberdâr (8)
23. Dacw (4)
24. Ffosiliau (9)

**I Lawr**

1. Goddef am amser hir (3-6)
2. Cecrus (9)
4. Gwneud telerau (5)
5. Annhebygu (7)
6. Moel (4)
7. Diau (2-2)
11. Bri (9)
12. Llofnodiad (9)
14. Cnaif (3)
15. Cwmni (7)
18. Digalonni (5)
19. Ceffyl ieuanc (4)
20. Coblwr (4)

**Atebion i: Croesair Col**
**34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX**
**erbyn 20 Medi 2012**

## Atebion Gorffennaf

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | | LL | | A | | C | | T | | FF | |
| A | M | G | U | E | DD | F | A | | Y | NG | A | N |
| | D | | W | | O | | R | | L | | T | |
| T | O | R | CH | I | | D | A | D | E | B | R | I |
| | | | W | | | | F | | | | I | |
| RH | I | M | Y | N | | C | A | M | O | S | O | D |
| | S | | N | | G | | N | | E | | E | |
| C | E | R | T | I | W | W | | P | R | I | DD | O |
| | L | | | | R | | | | F | | | |
| E | F | R | Y | D | Y | DD | | P | E | G | O | R |
| | R | | M | | M | | J | | L | | L | |
| T | Y | N | O | | I | G | A | M | O | G | A | M |
| | D | | D | | O | | R | | G | | F | |

**Problem gyda’r cyfrifiadur?**

Arbenigwr gyda
15 mlynedd o brofiad

**Cysylltwch â Paul:**
(01443) 208472
**Ebost:** computerpaul@live.co.uk
**Symudol:** 07731595066

# Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Cafwyd diwedd prysur i'r tymor yn cynnwys nifer o weithgareddau. (Lluniau tudalen 13)

**Wythnos Iach**

Mwynheuodd yr ysgol gyfan 'yr wythnos iach'. Yn ystod yr wythnos ym mis Mehefin cafodd pob dosbarth wersi "zumbatonic", blasu bwyd iach a chymerwyd ciciau o'r smotyn. 'Roedd y ciciau yn weithgaredd noddedig a diolch yn fawr i swyddogion Clwb Pêl-droed Caerdydd am ein helpu. I gloi'r wythnos cynhaliwyd Mabolgampau yr Ysgol ym Mharc Ynysangharad a chafwyd cystadlu brwd. Llys 'Taf' oedd yn dathlu eleni ar ôl ennill a chyflwynwyd y darian i'r capteiniaid Aled Williams a Jenna John. Diolch i Mrs. Emma Smith am gydlynu'r holl drefniadau.

**Cyngherddau**

Perfformiodd plant y cyfnod sylfaen eu cyngherddau yn yr ysgol gyda nifer o'r dosbarthiadau yn dilyn themâu 'Glan Y Môr' a 'Guto Nyth Brân'. 'Roedd plant yr adran iau yn llawn cyffro wrth gael y cyfle i berfformio yn y Miwni a hanesion Pontypridd oedd thema eu cyflwyniadau nhw. Yn eu cyngerdd nhw hefyd canodd côr y plant a'r staff o dan arweiniad Mrs. Moyra Greaney. Diolch i Mrs. Elin Prys Connor am drefnu'r cyngerdd yn y Miwni ac 'rydym yn ddiolchgar hefyd am yr help gawsom o'r tu allan i'r ysgol : Mr. Peter Greaney gyfeiliodd yn yr holl gyngherddau a bu Huw Blainey yn cynorthwyo gyda'r technegwyr.

**Ffarwelio**

Cynhaliwyd gwasanaeth ar ddiwedd y tymor i ffarwelio â'n Pennaeth Mrs. Moyra Greaney sydd wedi ymddeol ac i ddymuno'n dda i blant blwyddyn 6. Yn ystod y gwasanaeth dymunodd Mrs. Smith bob hwyl i Mrs. Greaney ar ran y staff a'r plant a diolchodd cadeirydd y llywodraethwyr Mr Mike Brown iddi yn y cyngerdd yn y Miwni. Cyflwynodd Natasha Pike rodd iddi ar ran y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Yn yr un gwasanaeth cyflwynwyd Cwpan Coffa Jessica McKeown i Eiri Pitman ac Ysgoloriaeth Cwmni Theatr "Stagecoach" - sy'n ymarfer yn yr ysgol bob wythnos - i Leila Jones. Dyma'r tro cyntaf i'r ysgoloriaeth gael ei chynnig ac 'roedd yn braf croesawu teuluoedd y plant i'r gwasanaeth.

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org

*029 2068 9888*

**Haf 2012**

Dyma'r haf brysuraf eto i'r Fenter. Cynhaliwyd sesiwn Bwrlwm sef chwarae rhydd am ddim mewn 6 lleoliad. Fe fynychodd nifer fawr o blant y sesiynau hyn, cawsant daith i'r Eisteddfod, gweithdy roc, parti a mabolgampau dan do. Cynhaliwyd Cynlluniau Gofal yn Ysgol Treganna ac Ysgol Glantaf gyda nifer fawr o'r dyddiau'n llawn. Bu'r plant yn coginio, dysgu ieithoedd tramor yn ogystal â mynd ar sawl taith a chael ambell i frwydr dŵr.

Cawsom hwyl yng Nghaeau Llandaf a Pharc Hailey gyda'n sesiynau Hwyl Haf. Fe fynychodd dros 200 o blant y gweithgareddau dros ddau ddiwrnod. Fel rhan o Ŵyl Ddysgu'r Haf a drefnir gyda Chyngor Caerdydd aeth 15 o blant i Langennech i ddysgu syrffio. Cafodd criw arall gwrs coginio am ddeuddydd yng nghwmni Rhian Clarke Cegin Fach.

**Clybiau Plant**

Mae Menter Caerdydd ar y cyd â'r Urdd wedi trefnu 14 o glybiau plant ar gyfer y tymor newydd. Clwb Pêl-rwyd, Dawnsio Stryd, Rygbi, Clybiau Nofio, Clybiau Gymnasteg, Clybiau Drama Cymunedol (ar ôl ysgol), Ysgol Ddrama Ffwrnais Awen. I gofrestru ewch i'n gwefan ac edrych 'dan 'Clybiau'.

**Sblish Sblash Babis Dŵr**

Fe fydd gwersi nofio i fabanod yn cael eu cynnal yn Nhreláí a'r Tyllgoed. Maent yn addas ar gyfer babanod 3 mis i 3 mlwydd oed. Am ragor o fanylion cysylltwch â Mari Rhys 02920 689888 neu ewch i'r adran 'teulu' ar ein gwefan.

**Cwis**

Cynhelir cwis nesaf y Fenter yn Y Mochyn Du, Gerddi Soffia, nos Sul Medi 30 am 8 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. £1 y pen i gymryd rhan.

**Cyrsiau Oedolion.**

Mae Menter Caerdydd mewn partneriaeth gyda Chyngor Caerdydd wedi trefnu amserlen o ddosbarthiadau i oedolion fydd yn cychwyn ddiwedd mis Medi a dechrau mis Hydref:

Sbaeneg, Eidaleg, Cynganeddu i Ddechreuwyr, Cynganeddu- Ymarfer y Grefft, Zumba, Ymarfer Circuits, Crefftau Cymreig Cyfoes, Cwiltio, Clytwaith, Gwnïo a Gwau, Traddodiadau Gwerin Morgannwg, Cadw'n heini 60+, Ffotograffiaeth. Am ragor o fanylion ewch i mentercaerdydd.org neu galwch Awel Davies 02920 689888

# 'GENNOD NI' - PONTY RFC

Os oes term Cymraeg am "girl power" yn sicr gellid ei ddefnyddio wrth drafod Clwb Rygbi Pontypridd yn ystod y tymor sydd i ddod.

Bydd y merched yn cynnig cyfraniad hanfodol, nid ar y maes chwarae wrth gwrs, ond yn y cefndir fel aelodau blaengar o adran farchnata a chyfryngau y clwb.

Angela Holloman-Coombes ac Emma Rogers fydd yn cydlynnu yr adran farchnata. Mae'r gwaith o godi arian trwy hysbysebion a sponsoriaeth yn hanfodol i ddyfodol y clwb, yn enwedig yn y cyfnod o gynni economaidd sydd ohoni.

Mae Clwb Rygbi Pontypridd mewn sefyllfa ariannol sicr ar hyn o bryd, yn gweithredu heb ddyled ac yn edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol. Mae'r gefnogaeth niferus sydd yn dilyn y tîm i bob gêm, adref ac oddi cartref, wrth gwrs yn cyfrannu'n sylweddol i'r coffrau, ond mae cefnogaeth y nifer o gwmniau – lleol a chenedlaethol – sydd yn barod i fuddsoddi yn y clwb hefyd yn allweddol.

Bydd Angela ac Emma wrthi yn brysur trwy gydol y tymor yn ennill mwy o fuddsoddiad ariannol i'r clwb.

Aelod newydd o adran cyfryngau y clwb eleni yw Emily Frowen, merch leol o Graigwen sydd yn gweithio fel cynorthwywraig yn Ysgol Evan James ac sydd hefyd yn brysur fel "ring girl" Cwffio Cawell ac sydd yn cystadlu mewn nifer o basiantau harddwch.

Bydd Emily yn wyneb cyfarwydd o hyn ymlaen ar wefan Pontypridd wrth arwain dyletswyddau 'PR' y clwb ac fel cyflwynwraig Ponty TV yn cyfweld â chwaraewyr a chefnogwyr yn ystod y tymor.

I wybod mwy am "Gennod Ni" Pontypridd ac i ddilyn hynt a helynt y tim trwy dymor cyffrous arall, galwch mewn ar y wefan: www.ponty.net



Mwynhau Bwrlwm Menter Caerdydd



Emily Frowen, Clwb Rygbi Pontypridd

## Ysgol Evan James



Capteniaid Llys Taf yn derbyn y darian oddi wrth Mrs. Greaney




Dosbarth 9 gyda Mrs. Elin Prys Connor ar ôl y ciciau o'r smotyn noddedig gyda swyddogion clwb pêl-droed Caerdydd



Mrs. Moyra Greaney yn derbyn anrhegion oddi wrth Eva Lloyd ac Aled Williams



Eiri Pitman gyda Chwpan Coffa Jessica McKeown


Soar



**Ocsiwn i godi arian tuag at**
**Cyngerdd Gŵyl Dewi Mawrth 2il 2013**
**7:30pm, Nos Wener Hydref 5ed 2012**

**Cyfle i brynu nifer o nwyddau o safon uchel sy'n cynnwys:**
**Dau docyn i gêm rygbi Cymru v Awstralia, ar Rhagyfr 1af 2012. Tocynnau i weld Tîm Rygbi Cymru yn ymfer diwrnod cyn gêm Awstralia. Crys a Phêl wedi ei arwyddo gan Dîm Pêl-droed Cymru. Tair noson am bris dau mewn bwythyn yn Nghymru. Hefyd mae nifer o nwyddau o safon uchel eraill ar gael i'w prynu. Ewch i www.merthyrtudful.org**

**Lleoliad: Theatr Soar a Chanolfan Gymraeg Merthyr Tudful. CF47 8UB**
**Rhif Ffôn 01685 722176**



# Ysgol y Dolau

**PGL**
Penwythnos rhagorol lawr yn Ynys Wyth cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar eu penwythnos gweithgareddau awyr agored. Wnaethon gymryd rhan ym mhob gweithgaredd trwy'r gwynt a glaw! Mwynheuodd y plant a staff y penwythnos oedd yn llawn cyffro ac meant yn edrych ymlaen at flwyddyn nesaf!

**Gŵyl Pêl-droed**
Cafodd plant blwyddyn 1 a 2 y cyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth pêl-droed yn Nhrefforest. Hwyl oedd y nod ac roedd cyfle i'r plant gystadlu yn erbyn ysgolion eraill. Mwynhad mawr gyda bechgyn ifanc Dolau yn dangos tipyn o dalent sgorio am y dyfodol!

**Dyfal Donc / Fflach**
Llongyfarchiadau i'r plant cymerodd ran yn y rhaglenni Dyfal Donc a Fflach eleni. Roedd yn hyfryd eu gweld yn gwenu'n braf yn ystod ein gwasanaeth dathlu. Diolch i'r holl rieni am gefnogi hefyd. Blwyddyn arall lwyddiannus. Diolch i'r staff am eu cyfraniad tuag at y rhaglenni.

**Blwyddyn 6**
Hwyl fawr enfawr i'n plant blwyddyn 6 ni eleni. Cawsom noson wobrwyo i ddweud farwel pan gafodd pob plentyn dystysgrif, medal neu darian am eu talentau, cyfraniadau a llwyddiannau yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Daeth cyn-ddisgybl, Brandon Nelson, fel gwestai arbennig i gyflwyno nifer o'r gwobrau. Da iawn i bawb a phob lwc i fywyd yn eu hysgolion cyfun. Maent wedi bod yn bleser eu dysgu nhw yma yn y Dolau.

**Tripiau Haf**
Roedd nifer o dripiau ac ymweliadau ar ddiwedd y flwyddyn. Aeth ein plant ifanc lawr i Fae Caerdydd fel môr-ladron tra roedd eraill yn mwynhau diwrnod egniol yn 'jump' yng Nghaerdydd. Aeth eraill am daith i'r Bari a rhai i'r sinema a bowlio deg i orffen. Mwynhad pur!

**Mabolgampau**
Roeddem yn ffodus iawn gyda'r tywydd eleni ar gyfer ein diwrnodau mabolgampau. Tywynnodd yr haul wrth i'n mabolgampau 'Olympaidd' gael eu cynnal ar gae'r ysgol. Mwynheuodd pob plentyn gymryd rhan yn y chwaraeon amrywiol gyda chystadlu brwd iawn yn y rhedeg!

**Pel-droed 'Cardiff City'**
Fel rhan o brosiect 'Cardiff City' yn y gymuned cawsom ddiwrnod codi arian wrth sgorio goliau! Cafodd pob plentyn o flwyddyn 1 i 6 gyfle i godi arian ac yna sgorio gôl fel rhan o'r tîm. Roedd yna lawer o bêl-droedwyr y dyfodol yna'n sgorio! Codwyd £1200, gyda hanner yn mynd tuag at yr ysgol. Diolch yn fawr i bawb!

**Bugsy Malone**
Cafwyd noson agoriadol lwyddiannus iawn i'r sioe haf eleni gyda'r gynulleidfa i gyd ar eu traed cyn i'r band daro'r nodyn olaf!

Mae'r plant a'r staff wedi gweithio'n ddi-stop ers ein harolwg ysgol er mwyn cyflwyno sioe broffesiynol a fyddai'n arddangos talentau'r ysgol ac roedd y sioe yn dystiolaeth deilwng iawn o'r gwaith caled dros y misoedd diwethaf.

Dywedodd un rhiant, "I have worked on numerous comprehensive productions and I can tell you now that any comprehensive teacher would have been over the moon with a performance of that calibre". Da iawn blant.

**Gwenynen Geiriau**
Cynhaliwyd ein hail gystadleuaeth sillafu eleni. Yn dilyn llwyddiant llynedd, eleni gwahoddom sillafwyr gorau ysgol Gynradd Garth Olwg ar gyfer cystadleuaeth rhwng ysgolion. Cawsom fore gwych gyda Dolau ar y blaen ar ôl y 3 rownd gyntaf ond yn colli yn y rownd derfynol!

**Rygbi**
Chwaraeodd Dolau yn erbyn ysgol gynradd Pontyclun nol ym mis Mai yn y gêm derfynol o gwpan PSRU 10 bob ochr. Cyn y gêm roedd tîmau ifanc o flwyddyn 4 yn chwarae yn erbyn ei gilydd - gêm llawn cryfder a thalent am y dyfodol! Roedd y gêm fawr ei hun yn un arbennig o dda - rygbi rhagorol gyda dros 80 o bwyntiau wedi eu sgorio. Roedd y diwedd yn agos iawn gyda Phontyclun yn ennill 47-40. Llongyfarchiadau i bawb chwaraeodd!

**Pêl-rwyd**
Ym mis Mai daeth tîm pêl-rwyd o Garth Olwg draw i chwarae yn ein herbyn. Roedd y merched yn gyffrous iawn a chwaraeon nhw gyda nerth a chalon! Roedd y gêm yn llawn sgil a thalent. Enillodd Dolau y ddwy gêm 10-0, gyda diolch mawr yn mynd i Cerys Reynolds, Layla Davies a Ffion Cooper am eu sgorio gwych. Da iawn i bawb a chwaraeodd-roedd yn bleser gwylio gêm mor dda.

**Cynllun 'Smile'**
Aeth plant blwyddyn 5 a 6 lawr i Goleg Pen-y-bont ar gyfer ail rhan cynllun 'Smile' eleni. Enw'r cynllun eleni oedd 'food for thought'. Roedd llawer o ysgolion yna eleni a chafodd ei agor gan y Prif Weinidog Carwyn Jones. Roedd y diwrnod yn llawn gweithdai diddorol gyda digon i weld a gwneud. Ond uchelgais y dydd oedd ennill y gystadleuaeth fideo am filltiroedd bwyd! Da iawn i bawb oedd yng nglwm â'r cynllun.

**Trawsgwlad**
Cystadlodd y plant mewn 2 gystadleuaeth trawsgwlad yn ystod y tymor. Y gyntaf oedd cystadleuaeth yr Urdd ar gaeau Ysgol Gyfun Llanhari. Ar brynhawn heulog!! Rhedodd y plant yn ardderchog. Cafodd Josh Napper ras agos iawn a daeth yn 2il allan o'r bechgyn i gyd. Enillodd bechgyn blwyddyn 6 y gystadleuaeth grŵp - da iawn i Marcus Chard, Jacob Sayer, Keiran Thomas a Leon Burton. Rhedodd Megan Abbott ras dda hefyd ar gyfer y merched.

Roedd yr ail gystadleuaeth yn Ysgol Gynradd Coity, lle cystadlon ni yn erbyn ysgolion lleol eraill. Trwy'r gwynt a glaw rhedodd y plant yn wych gyda nifer yn ennill ail a thrydydd safle, sef Ffion Cooper, Caitlin Rees a Cordelia Evans. Llongyfarchiadau mawr i Rhys Dauncey, Sam Waters a Dewi Roberts a ddaeth yn 1af, 2il a 3ydd yn y ras bechgyn blwyddyn 4.

**Diwrnod Sgiliau**
Ym mis Mehefin cafodd disgyblion Ca2 ddiwrnod sgiliau arall. Y tro hwn y thema oedd yr 'Olympaidd'. Bwriad y dydd oedd rhoi cyfle a blas o gemau a chwaraeon gwahanol o'r gemau Olympaidd Modern. Cafodd y plant gyfle gymryd rhan mewn gweithgareddau fel saethu, pêl-foli, badminton...dim ond enwi rhai..

# Y Samariaid

Mae'r Samariaid yn derbyn galwad pob chwe eiliad. Fyddai hi ddim yn bosib ateb y galwadau yma heb gymorth ein 600 o wirfoddolwyr, sy'n rhoi o'u hamser i gynorthwyo'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi. Ers 2010, rydyn ni wedi bod yn cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg (0300 123 3011) o saith yr hwyr tan 11 yr hwyr pob nos. Mae hyn yn ogystal â'n llinell gymorth sydd ar gael nos a dydd pob dydd (08457 909090)

Pob munud, rydyn ni'n ymateb i rywun a all fod yn meddwl am ladd ei hun. Mae ein gwirfoddolwyr, sy'n derbyn hyfforddiant manwl, yn cynnig gwasanaeth hollol gyfrinachol; gwasanaeth sy'n annog pobl i gysylltu â ni a siarad am beth bynnag sy'n eu poeni gan wybod na ddatgelir y wybodaeth i neb. Heblaw am y sicrwydd yma mae'n bosib na fyddai pobl â'r angen pennaf yn cysylltu â ni o gwbl.

Pob blwyddyn mae ein gwirfoddolwyr yn derbyn mwy na 88,000 o alwadau, tecstiau ac e-byst. Yn yr hinsawdd economaidd anodd yma, parhawn i weithio'n galed i sicrhau bod pawb sydd mewn angen ein cymorth yn gwybod am y gwasanaeth y cynigiwn, ble bynnag maen nhw'n byw yng Nghymru.

Simon Hatch
Cyfarwyddwr Gweithredol
Samariaid Cymru

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon**
(ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Medi:
2il.. Gwasanaeth Dathlu 100 mlwyddiant geni Waldo Williams yng nghwmni'r Parchedig Aled Gwyn
9fed. Oedfa Gymun Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)
16fed. Parchedig Allan Pickard
23ain. Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)
30ain. Gwasanaeth Ardal Gwaelod-y-garth, Ffynon Taf a Thongwynlais

Mis Hydref:
7fed Oedfa Sul Adferiad dan ofal y Cyngor Alcohol a Chyffuriau Eraill
14eg Oedfa Gymun Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)
21ain Parchedig Derwyn Morris Jones
28ain Parchedig R. Alun Evans (Gweinidog)

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu pawb yn ôl ar ddechrau mis Medi. Gwyddom bod ein haelodau a'n cyfeillion wedi bod ar ddiasberod dros yr haf, ond dyma gyfle i ail-afael, ie hyd yn oed ail-afael o'r newydd, yng ngweithgarwch a thystiolaeth y Gair yma yn ein plith wrth droed y Garth.

Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn wedi gorffwys dros yr Haf, bydd Cymdeithas Drws Agored yn ail-gydio yn ei dyletswyddau gan bori yn ystod y tymor cyntaf yma ar waith Waldo Williams, a ninnau'n dathlu canmlwyddiant ei eni eleni.

Bydd Academi'r Garth yn newid aelwyd ac yn lletya ym Methlehem am y flwyddyn nesaf yma.

Bydd y Cwrdd Merched yn trefnu cyfres o gyfarfodydd (o gwmpas bwydlenni di-rif siwr o fod!) ar gyfer y tymor i ddod.

Bydd elusen leol newydd i'w chefnogi, ac edrychwn ymlaen at gyfoeth o ddigwyddiadau a fydd yn ein galluogi i roi celc teilwng i Ambiwlans Awyr Cymru ar ddechrau haf 2013.

Cadwch olwg yn ogystal ar wefan yr Annibynwyr er mwyn i chi weld y ffilm arobryn a gynhyrchwyd gan Aled a Dylan, dau o'n haelodau ifanc, gydag ychydig o gymorth gan Rhys Powys, sy'n gofnod o fwrlwm cyfredol Bethlehem. Mae gwir yn y suon felly fod Bethlehem erbyn hyn wedi mynd yn "global"!

Oes 'na ddigon o abwyd i'ch denu atom tybed? Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Os oes chwant troi i mewn i oedfa rhywbryd yn y dyfodol, bydd croeso twymgalon yn eich disgwyl bob amser ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.

# Cant o Alawon Gwerin "Newydd"

Bu wythnos Eisteddfod y Fro yn un nodedig yn hanes ein diwylliant gwerin gyda chyhoeddi dwy gyfrol o gerddoriaeth werin fydd yn golygu bod tua chant o ganeuon a thonau "newydd" ar gael i'r genedl gyfan am y tro cynta.

Gyda maes yr eisteddfod yn ymyl cartre Iolo Morganwg, fe gyhoeddodd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru y gyfrol, "Alawon Gwerin Iolo Morganwg," a olygwyd gan Lela Salisbury. Ma'r gyfrol yn cynnwys wythdeg with darn; pedwardeg pedwar cân a phedwardeg pedwar alaw a gasglwyd yn lleol gan Iolo, a rheini wedi eu cadw ym mhapurau Iolo yn y Llyfrgell Genedlaethol ers cenedlaethau. Mae tua wythdeg o'r darnau yn cael eu cyhoeddi am y tro cynta.

Yr ail gyfrol yw "Ffylantin-tŵ", cyfrol a CD sydd talu teyrnged i waith Meredydd Evans a Phyllis Kinney yn ymchwilio i hen ganeuon a thonau. Mae dauddeg tri o ganeuon ynddi, gyda tua deunaw ohonynt wedi cael eu cyhoeddi neu eu recordio am y tro cynta. Ar y CD fe glywir rhai o gerddorion gwerin mwya blaenllaw Cymru, gan gynnwys dau o'r ardal, Dafydd Idris a Menna Thomas.

Fe fydd y ddwy gyfrol ar werth yn Siop y Bont ym Marchnad Pontypridd, wrth gwrs.

## Penwythnos Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Hydref 13eg a'r 14fed

Ydych chi am ddysgu mwy am gefndir a hanes ein cerddoriaeth traddodiadol, canu neu chwarae caneuon a thonau hen a newydd, a mwynhau cwmnïaeth criw o'r un anian? Beth am ddod i gynhadledd y Gymdeithas yng Ngwesty Fro Olau ar lethrau Cadair Idris, pan fydd lliwiau bendigedig yr hydref ar eu gorau - a does dim angen i chi fod yn aelod o'r Gymdeithas.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Dr Rhiannon Ifans, Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ, (01970)828719, Rhiannon.ifans@gmail.com

# BETH MAE EICH BABI'N DWEUD WRTHYCH CHI?

Mae'n broblem mae pob rhiant newydd yn wynebu – baban bach yn llefain a'r rhieni'n gofidio wrth iddynt geisio dyfalu beth mae eisiau. Dyna pam mae rhieni ar hyd a lled Prydain yn troi at wersi arwyddo babanod TinyTalk i ddechrau cyfathrebu gyda'u plant, cyn iddynt fedru siarad.

O oed ifanc, gall plant deall llawer mwy na maent yn medru cyfathrebu. Rhwng yr oedran o 6-9 mis mae babanod yn dechrau cysylltu geiriau at wrthrychau, ond nid yw eu cegau, tafodau na chordiau lleisiol wedi datblygu digon iddynt fedru siarad, a chael eu deall, tan eu bod tua 12-18 mis oed. Dyma pryd gall plant a rhieni deimlo eu bod yn cael eu rhwystro wrth iddynt geisio deall ei gilydd.

Rydym yn defnyddio ystum fel rhan naturiol o iaith yn barod. Trwy adeiladu ar hyn a dysgu rhai arwyddion syml mae babanod mor ifanc â 6-9 mis oed yn medru dechrau mynegi beth maent eisiau, neu rannu eu cyffro at weld hwyaid yn y parc! Mae rhai rhieni yn poeni bydd defnyddio iaith arwydd yn arafu datblygiad iaith eu plentyn. Nid yw hyn yn wir ac yn aml y gwrthwyneb sy'n wir. Mae'n bwysig dweud y gair tra'n arwyddo er mwyn i'r plentyn wneud y cysylltiad rhwng y gwrthrych, yr arwydd a'r gair. Mae arwyddo yn arbennig o ddefnyddiol i deuluoedd dwyieithog, gan roi cysylltiad gweledol rhwng geiriau yn y ddwy iaith lafar.

Yn newydd sbon ym mis Medi, byddaf yn cynnig gwersi arwyddo babanod trwy gyfrwng y Gymraeg, ym Mhendeulwyn, ar gyrion Caerdydd, ar fore Gwener. Dyma gyfle i deuluoedd Cymraeg dysgu sut i arwyddo gyda'u babanod, trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ganu caneuon Cymraeg a mwynhau amser cymdeithasol wedi'r wers a sgwrsio gyda theuluoedd Cymraeg eraill.

Pan ddechreuais i ddysgu arwyddo babanod gyda TinyTalk roeddwn yn benderfynol yn fy mwriad o gynnig y gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. 'Rwy'n magu fy mhlant yn ddwyieithog ond mae'r byd o'u gwmpas yn uniaith Saesneg, a gan fod fy rhieni yn byw yng Ngogledd Cymru rwy'n teimlo nad yw fy merched yn cael digon o gyfle i glywed Cymraeg yn cael ei defnyddio o'u gwmpas.

Os hoffech fanylion am wersi TinyTalk Cymraeg, cysylltwch efo fi ar elunedw@tinytalk.co.uk. Ymwelwch â fy ngwefan www.tinytalk.co.uk/elunedw, neu fy nhudalen facebook www.facebook.com/TinyTalkCymraeg.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
Eluned Winney 07877 566935
elunedw@tinytalk.co.uk

# Taith Beic i'r Ynysoedd



Ym mis Mai aeth Emlyn Jones (Pens), Tonteg, a'i gyfaill Meurig Rees, ar daith beicio yn yr Alban ar draws Ynysoedd Heledd, drwy'r Ynys Hir (Skye) ac yn ôl i Oban. Roedd yn daith 470 millitir dros gyfnod o wyth diwrnod heibio ambell ddistyllfa wisgi a chapeli'r Presbyteriaid.

Trafod hynt a helynt yr iaith Gaeleg. Difyr iawn cael gwybod be' 'di be' a faint o'r gloch ydi hi ar yr iaith. Calanais - dyma safle godidog a rhyw rin arbennig yn perthyn i'r meini mawrion hudolus.












# TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

**Y Cylch Meithrin yn Ffarwelio**

Ddydd Iau, 19 Gorffennaf cynhaliwyd parti ffarwelio yn y Cylch er mwyn dweud hwyl fawr wrth y plant hynny a fydd yn mynd yn eu blaenau i Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ym mis Medi. Y Môr oedd eu thema ar gyfer y diwrnod.



**Y plant yn mwynhau mynd O Dan y Môr**



**Cwtsh i gymeriadau MM Doti a Dewin**

